



## Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr
Yn atebol i:	Uwch Hyfforddwr Gweithgareddau
Yn Gyfrifol am:	Gweler Pwrpas y Swydd

### Pwrpas y Swydd

Fel aelod o'r Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr bydd eich rôl yn cynnwys cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o dasgau a swyddogaethau yn y Ganolfan. Mae'r rhain yn cynnwys cynorthwyo gyda rhedeg y rhaglenni gweithgareddau dŵr ac ar y lan, dyletswyddau blaen tŷ y Ganolfan (derbynfa), gweithredu fel swyddog ar ddyletswydd, cadw'r Ganolfan yn lân a thaclus a chynorthwyo gyda chynnal a chadw offer y Ganolfan.

### Prif ddyletswyddau

- Fel rhan o'ch rhaglen datblygiad personol byddwch yn cynorthwyo gyda chynnal yr holl gyrsiau dŵr a thir, ar ac oddi ar y safle, yn unol â gofynion y rhaglen a'r Llawlyfr Gweithredol.
- Gweithredu fel swyddog dyletswydd gyda'r nos yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel Swyddog Dyletswydd Nos yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo a chefnogi rhaglen cynnal a chadw'r Ganolfan gan weithio o dan oruchwyliaeth y Rheolwr Gweithgarwch ar Ddyletswydd a chynnal yr archwiliadau wythnosol, misol a blynyddol allweddol.
- Cynorthwyo'r Swyddogion Offer wrth iddynt wneud gwaith y Ganolfan gyda mân atgyweiriadau i offer yr adran hyfforddi.
- Cynorthwyo Swyddogion Cynnal a Chadw'r Ganolfan gyda mân atgyweiriadau, gwaith ar diroedd a dyletswyddau eraill.

- Cynorthwyo'r tîm gweinyddol drwy ddarparu gwasanaeth llanw yn y dderbynfa fel a phan fo angen.
- Ymateb i unrhyw sefyllfaoedd brys a chofnodi'r holl ddigwyddiadau a damweiniau, yn ôl yr angen, gyda chefnogaeth tîm rheoli'r Ganolfan.
- Cynorthwyo'r Prif Hyfforddwr a'r Rheolwr Gweithgarwch ar Ddyletswydd i sicrhau bod y gweithrediadau ar lan y dŵr ac ar y tir yn cydymffurfio â llawlyfr gweithrediadau/ canllawiau'r Ganolfan a'r gofynion statudol a'r codau ymarfer perthnasol.
- Yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch chi eich hun ac iechyd a diogelwch eraill a all gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd neu eich esgeulustod yn y gwaith. Cydweithredu â Chwaraeon Cymru wrth iddo gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan unrhyw ddarpariaethau iechyd a diogelwch, e.e. cynnal asesiadau risg, asesiadau COSHH/HACCP ac ati.
- Gwisgo dillad priodol a chydymffurfio ag unrhyw fentrau gwasanaethau cwsmeriaid a sylwadau cwsmeriaid a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu cymorth i staff eraill Chwaraeon Cymru yn gyson â sicrhau bod gofynion gweithredol y Ganolfan yn cael eu bodloni.
- Helpu i gynnal amgylchedd taclus a glân ym mhob rhan o'r Ganolfan (mewnol ac allanol).
- Cyflawni cyfrifoldebau sydd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol i Chwaraeon Cymru mewn perthynas a'n ddyletswyddau statudol, gan cynnwys Lles Cenedlaethau'r Dyfodol(Cymru). Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, Diogelu, Rheolaeth Ariannol/Cyllid ac Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Oherwydd natur y rôl gofynnir i aelodau'r rhaglen weithio oriau afreolaidd ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nosau, dros nos, penwythnosau a gwyliau banc a chyhoeddus a gwyliau eraill a enwebir. Bydd y patrymau gwaith yn gofyn am hyblygrwydd rhesymol yn unol ag anghenion y Ganolfan.
- Ni ddylid ystyried y rhestr hon fel un hollgynhwysfawr nac eithriol oherwydd efallai y bydd tasgau eraill i'w cyflawni fel rhan o alluoedd deiliad y rôl yn unrhyw faes yng ngweithrediadau Chwaraeon Cymru.

## Gwerthoedd Chwaraeon Cymru

Mae ein dull o weithredu i alluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu yn esblygu. Rydym wedi ymrwymo i herio ein hunain yn barhaus i wneud y canlynol:

- Dysgu Gyda'n Gilydd Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.
- Cyflawni Gyda'n Gilydd Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.
- Dathlu Gyda'n Gilydd Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol.

Drwy wneud y canlynol:

### Gweithredu'n Ddidwyl!

Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd.

Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ychwanegu Gwerth

Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir.

### Annog Arloesi

Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

## Manyleb y Person

	Gofynion Hanfodol	Gofynion Dymunol
Addysg:	Rhaid bod ag o leiaf un cymhwyster hyfforddi gan Gorff Rheoli Cenedlaethol mewn Chwaraeon Awyr Agored Anturus	Cymhwysterau dysgu/hyfforddi mewn chwaraeom eraill  Cymhwysterau Sciloau Cyrff Rheoli Cenedlaethol Chwaraeon Anturus
Profiad:	Tystiolaeth eich diddordeb mewn cymeryd ran mewn gweithgarethau anturus	Profiad o ddarparu hyfforddiant(chwaraeon neu gweithgareddau arall) i grwp  Gwasanaeth Cwsmer – profiad o ddarpariaeth I cwsmeriaid, rhoi gwybodaeth a chefnogaeth.
Sgiliau, Doniau a Galluedd:	Y gallu i gyfathrebu yn glir ac yn effeithiol  Sgiliau Gwasanaeth Cwsmer  Yn gallu gweithio mewn tim  Agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus; gallu a chymhelliant i nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer hunanddyfiant  Agwedd hyblyg tuag at oria gwaith	Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg,